**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf LG/00125/16

Christine Chapman AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

8 Chwefror 2016

Annwyl Christine

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 21 Ionawr i drafod ~~cynigion~~ y gyllideb ddrafft ar gyfer fy mhortffolio. Rwy'n ymateb i'ch pwyntiau isod.

**Cymunedau yn Gyntaf**

Roedd nifer o ffactorau'n sail i'r penderfyniad i ddiogelu cyllideb Cymunedau yn Gyntaf yn ystod cyfnod pontio blwyddyn 2016-17 gan gynnwys defnyddio Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau i fesur perfformiad y rhaglen. Mae fframwaith canlyniadau'r Rhaglen wedi'i seilio ar fodel Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau sy'n caniatáu inni fonitro perfformiad yn erbyn targedau penodol yn well, sy'n sicrhau bod y cyllid yn llywio'r canlyniadau ar gyfer y rhai hynny sydd ei angen fwyaf. Mae'r fframwaith canlyniadau'n helpu i roi darlun llawn o'r hyn a ddarperir, a'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan y Clystyrau, a chan y rhaglen yn gyffredinol mewn perthynas â Threchu Tlodi.

Casgliad y gwerthusiad annibynnol o fodel y Rhaglen, a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror 2015, oedd bod ein ffordd o weithio yn achos Cymunedau yn Gyntaf yn un rhesymegol, yn un a oedd yn cael ei gefnogi yn y cymunedau, ac yn un a oedd yn fwy tebygol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Yn unol â hynny, felly, roeddwn i am ddarparu cyfle i ddatblygu strwythur a chyflawniadau Cymunedau yn Gyntaf ymhellach. Byddai hynny'n caniatáu inni gyflawni canlyniadau gwell, gan roi mwy o sylw i gyflogaeth a chyflogadwyedd. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn chwarae rôl bwysig, yn enwedig o ran cynnig cymorth ymarferol i gyflawni gwaith rhaglenni Esgyn a Chymunedau am Waith mewn modd effeithiol. Gydai'i gilydd, mae'r rhaglennu hyn yn helpu i symud mwy o bobl allan o dlodi drwy gael gwaith iddynt.

Fel yr addawais yr rwyf yn darparu gwybodaeth sydd ar gael ar y cyfraddau diweithdra a chyflogaeth ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Am bob Awdurdod Lleol, y mae'r data wedi cael eu rhannu rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd tu allan i'r rhaglen (h.y. mae yna gyfanswm am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a chyfanswm am ardaloedd tu allan i'r rhaglen), yn ogystal â chyfanswm am yr Awdurdod Lleol. Gwelir y wybodaeth o fewn yr atodiad i'r llythyr yma.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn caniatáu inni fesur yr effaith ar boblogaeth cleientiaid y Rhaglen. Mae mesurau perfformiad yn dangos faint mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud, pa mor dda y mae'n ei wneud, ac a yw unrhyw un mewn sefyllfa well fel canlyniad i delerau Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau. Ac felly, yn sgil hynny, rydym ni mewn sefyllfa well i fesur effaith ymyriadau ar y rhai hynny sy'n cyfranogi at y gweithgareddau penodol.

Yn y bôn, y nifer o bobl sy'n byw mewn tlodi yw "dangosydd poblogaeth" ac, oherwydd hynny, mae'n cael ei ddefnyddio i fesur canlyniadau ar gyfer y boblogaeth gyfan. Er y bydd gwahanol raglenni'n nodi nifer o ddangosyddion poblogaeth y bydd ei gweithgareddau yn cael effaith arnynt, rydym yn cydnabod bod ystod eang o ymyriadau hefyd yn cael effaith ar ddangosyddion poblogaeth, ac nad sefydliad neu raglen unigol ar wahân sy'n debygol o effeithio ar y newid ar y lefel hon.

Mae dangosyddion poblogaeth Cymunedau yn Gyntaf sy'n ymwneud â thlodi wedi'u seilio ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), yn enwedig o ran incwm. Dewiswyd dangosyddion MALIC gan mai'r rhain yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Nod MALIC yw canfod yr ardaloedd bach hynny sydd â'r crynoadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd. Dangosydd cyfansawdd unigol yw'r maes incwm, sy'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r tair elfen ganlynol:

(a) Y ganran sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig ag incwm,
(b) Y nifer o blant ac oedolion mewn teuluoedd sy'n derbyn Credydau Treth, ac sydd ag incwm sy'n llai na 60% o'r incwm canolrifol yng Nghymru (cyn Costau Tai), sef y dull i fesur tlodi y cytunwyd arno i'w ddefnyddio yn Ewrop,
(c) Ceiswyr Lloches a gefnogir gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches.

Egwyddor allweddol sy'n sail i'r Rhaglen yw bod y cymunedau'n cael eu cynnwys. Mae'r Clystyrau Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y cymunedau'n cael eu cynnwys, tra bo'r Cyrff Cyflawni Arweiniol yn cyflogi staff i gyflawni'r Rhaglen. Y Cyrff Cyflawni Arweiniol sy'n gyfrifol am ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cymunedau.

Mae Cynlluniau Cynnwys y Gymuned yn amlinellu ymrwymiad y Clystyrau i sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys, ac i ddangos sut y byddant yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw a'i werthuso. Mae'r Cynlluniau hefyd yn nodi'r modd y bydd y Cyrff Cyflawni Arweiniol yn sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae'r Cynlluniau hyn hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer gwario cyllideb benodol Cynllun Cynnwys y Gymuned, sydd tua £25,000 ar gyfer pob Clwster.

Mae canllawiau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn nodi, ' Bydd y Cynllun hwn yn wahanol ar gyfer pob Clwstwr, er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol, ond nod pob un fydd sicrhau mwy o gyfranogiad o'r naill flwyddyn i'r llall, yn enwedig gan y bobl leol y mae tlodi'n cael yr effaith fwyaf arnynt.' (Canllawiau Rhaglen 2013 Cymunedau yn Gyntaf.)

Caiff Cynlluniau Cynnwys y Gymuned eu cyflwyno'n flynyddol a'u hasesu gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd adborth manwl i'r rhai hynny sydd angen gwneud gwaith ychwanegol ar feysydd y gellir eu gwella. Mae cymorth ar gael i wella'r Cynlluniau gan swyddogion (gwaith a arweinir gan arbenigwr ar secondiad), drwy Gontract Hyfforddiant a Chymorth Llywodraeth Cymru (a ddarperir drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), a chan Gydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol (sy'n cael eu hariannu gan Ddyfodol Tecach).

Cafodd y cylch diwethaf o Gynlluniau Cynnwys y Gymuned ei gyflwyno yn ystod hydref 2014. Roedd ansawdd y set gyntaf o Gynlluniau'n amrywio'n eang ar draws Cymru. Ers i'r Cynlluniau cyntaf gael eu cyflwyno, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gan swyddogion, Cyrff Cyflawni Arweiniol, Clystyrau, a chymunedau, i'w cryfhau a'r dyddiad nesaf ar gyfer eu cyflwyno yw 5 Chwefror 2016.

**Digartrefedd**

Gan droi at eich cwestiwn am ddigartrefedd, rwy'n croesawu'r cyfle i egluro'r mater. Roedd fy ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad yr ydych wedi'i grybwyll yn cyfeirio at y £2.2 miliwn o gyllid ychwanegol o'm cyllideb ar gyfer Atal Digartref yr wyf yn ei roi i Awdurdodau Lleol. Rwy hefyd yn dyrannu £0.8 miliwn ychwanegol o'r gyllideb honno, sy'n golygu mai £3 miliwn fydd cyfanswm y dyraniad i Awdurdodau Lleol yn 2016-17 i gefnogi'r costau ychwanegol o weithredu ail flwyddyn o ddeddfwriaeth newydd. Gan fod y £2.2 miliwn yn swm ychwanegol, sy'n uwch na'r gyllideb sylfaen ar gyfer Atal Digartrefedd, nid yw'n ymddangos yn llinell gwariant y gyllideb. Nid yw'r cyllid wedi'i dynnu o unrhyw feysydd penodol yn fy mhortffolio. O brofiad, gwelwyd bod llithriant yn y gwariant yn digwydd ar draws fy mhortffolio yn ystod y flwyddyn. Gan fod hynny'n tueddu i ddod i'r amlwg yn gymharol hwyr yn y flwyddyn, mae'n gallu bod yn anodd i'w ddyrannu'n gyflym i gefnogi gweithred arall. Felly, o edrych ar fy mhortffolio cyfan, rwy'n rhagweld y llithriant ac yn dyrannu'r cyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol nawr, fel y gallant wneud y defnydd gorau posibl ohono.

**Swyddogion Galluogi Tai**

Mae'r Llywodraeth hon wedi parhau i gefnogi Swyddogion Galluogi Tai Gwledig ers nifer o flynyddoedd, gan eu bod yn adnodd hanfodol i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael mewn cymunedau gwledig. Mae canlyniadau'r gwerthusiad a gynhaliwyd o'r prosiectau yn rhoi tystiolaeth o hynny. Ar sail hynny, rwy wedi gwneud ymrwymiad mewn egwyddor i roi £100,000 o gyllid i Swyddogion Galluogi Tai Gwledig yn 2016-17. Mae'r dyraniad hwn yn perthyn i gyllideb Cyllid Refeniw Tai, gan fod llinell wariant Cyllideb benodol Swyddogion Galluogi Tai wedi'i chyfuno â llinellau gwariant cyllidebau eraill.

**Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)**

Ac yn olaf, roeddech wedi gofyn am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau gwaith paratoadol ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith. Fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer prif ran y gwaith, mae'r gwahanol reoliadau wedi'u grwpio yn ôl nifer o ffrydiau gwaith, a fydd yn caniatáu inni weithio mewn ffordd gydlynol i ddatblygu'r gwaith a chynnal ymgynghoriad. Mae cyfarfod cyntaf ein grŵp o randdeiliaid eisoes wedi'i gynnal, a bydd meithrin cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid yn nodwedd bwysig o'r rhaglen waith. Rwy'n rhagweld y bydd y broses ymgynghori ar y rheoliadau yn dechrau'n gynnar yn nhymor newydd y Llywodraeth. Yn ychwanegol at yr amser y cymerir i swyddogion baratoi, ymgynghori ar y rheoliadau a'u cwblhau, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol sylweddol yn cael eu hysgwyddo yn ystod y cyfnod datblygu. Fodd bynnag, rwy wedi neilltuo £15,000 o

gyllideb Byw'n Annibynnol ar gyfer cyngor technegol arbenigol pe byddai angen hwnnw yn achos y rheoliadau, er enghraifft ar gyfer 'eiddo addas i bobl fyw ynddo'.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

# Atodiad

**Labour market statistics, by local authority and Communities First (CF) area**
**3-year average for the years ending 30 September 2013, 30 September 2014 and 30 September 2015**

| Area | Age 16+ Employment level | Age 16-64 Employment rate (%) | Age 16+ Unemployment level | Age 16+ Unemployment rate (%) | Age 16-64 Economic inactivity level | Age 16-64 Economic inactivity rate (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 30,900 | 71.5 | 2,300 | 6.8 | 9,500 | 23.2 |
| Inside CF Area | 4,100 | 62.3 | 600 | 12.5 | 1,800 | 28.7 |
| Outside CF Area | 26,900 | 73.2 | 1,700 | 5.9 | 7,700 | 22.2 |
| Gwynedd | 54,400 | 69.6 | 3,500 | 6.1 | 19,100 | 25.7 |
| Inside CF Area | 3,500 | 54.7 | 400 | 11.3 | 2,400 | 38.2 |
| Outside CF Area | 50,900 | 70.9 | 3,100 | 5.7 | 16,800 | 24.6 |
| Conwy | 50,000 | 71.2 | 2,600 | 5.0 | 16,400 | 24.8 |
| Inside CF Area | 4,700 | 58.9 | 500 | 10.4 | 2,600 | 34.0 |
| Outside CF Area | 45,400 | 72.8 | 2,100 | 4.4 | 13,900 | 23.6 |
| Denbighshire | 40,800 | 70.2 | 2,800 | 6.4 | 13,700 | 24.8 |
| Inside CF Area | 3,600 | 52.9 | 800 | 17.8 | 2,400 | 35.3 |
| Outside CF Area | 37,200 | 72.6 | 2,000 | 5.1 | 11,300 | 23.3 |
| Flintshire | 71,700 | 72.1 | 3,600 | 4.8 | 23,000 | 24.2 |
| Inside CF Area | 7,500 | 67.4 | 700 | 8.1 | 2,900 | 26.6 |
| Outside CF Area | 64,300 | 72.7 | 3,000 | 4.4 | 20,100 | 23.9 |
| Wrexham | 65,400 | 74.1 | 3,700 | 5.4 | 18,400 | 21.6 |
| Inside CF Area | 13,300 | 65.2 | 1,400 | 9.7 | 5,500 | 27.6 |
| Outside CF Area | 52,100 | 76.8 | 2,300 | 4.2 | 13,000 | 19.8 |
| Powys | 63,000 | 76.7 | 1,900 | 3.0 | 15,800 | 20.9 |
| Inside CF Area | . | . | . | . | . | . |
| Outside CF Area | 63,000 | 76.7 | 1,900 | 3.0 | 15,800 | 20.9 |
| Ceredigion | 33,200 | 63.3 | 1,300 | 3.9 | 16,400 | 34.0 |
| Inside CF Area | . | . | . | . | . | . |
| Outside CF Area | 33,200 | 63.3 | 1,300 | 3.9 | 16,400 | 34.0 |
| Pembrokeshire | 54,800 | 71.6 | 3,500 | 6.0 | 17,100 | 23.7 |
| Inside CF Area | 3,500 | 54.9 | 600 | 14.7 | 2,100 | 35.0 |
| Outside CF Area | 51,300 | 73.1 | 2,900 | 5.3 | 15,000 | 22.7 |
| Carmarthenshire | 79,900 | 68.0 | 6,000 | 7.0 | 29,400 | 26.5 |
| Inside CF Area | 9,500 | 63.0 | 1,100 | 10.4 | 4,300 | 29.3 |
| Outside CF Area | 70,400 | 68.8 | 4,900 | 6.5 | 25,100 | 26.1 |
| Swansea | 106,300 | 67.2 | 9,200 | 8.0 | 41,000 | 26.8 |
| Inside CF Area | 23,600 | 59.1 | 3,700 | 13.7 | 12,200 | 31.3 |
| Outside CF Area | 82,700 | 69.9 | 5,500 | 6.2 | 28,800 | 25.3 |
| Neath Port Talbot | 61,100 | 66.5 | 5,200 | 7.9 | 24,700 | 27.6 |
| Inside CF Area | 21,100 | 61.2 | 2,400 | 10.0 | 10,700 | 31.9 |
| Outside CF Area | 40,100 | 69.8 | 2,900 | 6.7 | 14,000 | 25.1 |
| Bridgend | 62,900 | 70.5 | 5,000 | 7.4 | 20,600 | 23.7 |
| Inside CF Area | 15,100 | 63.2 | 1,800 | 10.8 | 6,800 | 29.0 |
| Outside CF Area | 47,700 | 73.2 | 3,200 | 6.2 | 13,800 | 21.8 |
| The Vale of Glamorgan | 58,000 | 72.0 | 4,600 | 7.3 | 17,000 | 22.1 |
| Inside CF Area | 5,700 | 58.2 | 1,200 | 17.3 | 2,800 | 29.5 |
| Outside CF Area | 52,300 | 74.0 | 3,400 | 6.1 | 14,200 | 21.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 102,400 | 67.4 | 10,600 | 9.4 | 37,800 | 25.5 |
| Inside CF Area | 35,600 | 59.3 | 5,100 | 12.5 | 19,100 | 32.2 |
| Outside CF Area | 66,900 | 72.8 | 5,600 | 7.7 | 18,800 | 21.0 |
| Merthyr Tydfil | 25,500 | 66.1 | 2,400 | 8.5 | 10,400 | 27.7 |
| Inside CF Area | 12,900 | 60.4 | 1,500 | 10.5 | 6,700 | 32.3 |
| Outside CF Area | 12,600 | 73.1 | 800 | 6.3 | 3,700 | 21.9 |
| Caerphilly | 78,100 | 67.7 | 6,900 | 8.1 | 29,400 | 26.2 |
| Inside CF Area | 27,800 | 58.9 | 4,000 | 12.6 | 15,000 | 32.4 |
| Outside CF Area | 50,400 | 73.8 | 2,900 | 5.4 | 14,400 | 21.8 |
| Blaenau Gwent | 28,800 | 64.1 | 4,100 | 12.5 | 11,800 | 26.7 |
| Inside CF Area | 17,500 | 59.2 | 3,000 | 14.6 | 8,900 | 30.6 |
| Outside CF Area | 11,300 | 73.4 | 1,100 | 8.9 | 2,900 | 19.3 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Torfaen | 39,700 | 67.9 | 4,300 | 9.8 | 14,000 | 24.6 |
| Inside CF Area | 9,100 | 55.8 | 1,700 | 15.3 | 5,500 | 34.0 |
| Outside CF Area | 30,500 | 72.7 | 2,700 | 8.0 | 8,600 | 20.9 |
| Monmouthshire | 43,600 | 75.2 | 2,200 | 4.7 | 11,400 | 20.9 |
| Inside CF Area | . | . | . | . | . | . |
| Outside CF Area | 43,600 | 75.2 | 2,200 | 4.7 | 11,400 | 20.9 |
| Newport | 65,000 | 69.5 | 5,200 | 7.4 | 22,700 | 24.8 |
| Inside CF Area | 18,300 | 56.6 | 2,900 | 13.8 | 10,900 | 34.2 |
| Outside CF Area | 46,700 | 76.4 | 2,300 | 4.7 | 11,800 | 19.7 |
| Cardiff | 166,200 | 67.9 | 14,500 | 8.0 | 62,100 | 26.1 |
| Inside CF Area | 41,300 | 58.8 | 5,600 | 11.9 | 22,700 | 33.1 |
| Outside CF Area | 124,800 | 71.6 | 8,900 | 6.7 | 39,300 | 23.2 |
| Wales | 1,381,800 | 69.4 | 105,500 | 7.1 | 481,900 | 25.2 |
| Inside CF Area | 277,600 | 59.6 | 39,000 | 12.3 | 145,200 | 31.9 |
| Outside CF Area | 1,104,200 | 72.4 | 66,600 | 5.7 | 336,700 | 23.1 |

Source: Annual Population Survey, Office for National Statistics

Notes:

The data item is based on between 25 and 40 responses to the survey, and is categorised as being of limited quality.

The data item is based on between 10 and 25 responses to the survey, and is categorised as being of low quality.

Only estimates based on 40 responses or more are categorised as robust.

. The data item is not applicable

Two Lower Super Output Areas within the Neath Port Talbot - Western Valleys CF area are within Powys, but have been included in Neath Port Talbot in the above table.